Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Cytundebau rhyngwladol

## Cytundebau a drafodwyd ar 29 Medi 2025

Hydref 2025

senedd.cymru

# 1. Cefndir

**1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

**2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.

**3.** Mae'r Pwyllgor yn trafod effaith cytundebau rhyngwladol a osodir yn Senedd y DU, o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010* (Deddf 2010), ar Gymru. Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.

**4.** Wrth drafod cytundeb rhyngwladol, rydym yn ystyried:

- a yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.

**5.** Ar 29 Medi 2025[1], fe wnaethom ni drafod tri chytundeb rhyngwladol a oedd wedi'u gosod yn ddiweddar yn Senedd y DU:

- Confensiwn ar Iawndal Atodol am Ddifrod Niwclear;
- Cytundeb ar reolaethau allforio amddiffyn; a
- Cytundeb Partneriaeth a Chydweithio Llongau Tanfor Pŵer Niwclear y DU ac Awstralia.

**6.** Fe wnaethom ni gytuno i nodi'r cytundebau hyn er gwybodaeth yn unig.

**7.** Fe wnaethom ni hefyd nodi bod y Cytundeb rhwng y DU a Mauritius ynghylch Ynysoedd Chagos, a oedd wedi'i gytuno mewn egwyddor yn flaenorol, ac a nodwyd wedi hynny gan y Pwyllgor ym mis Ionawr 2025[2], wedi'i osod yn ffurfiol yn Senedd y DU ar 22 Mai 2025.

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 29 Medi 2025
[2] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cytundebau a drafodwyd ar 6 Ionawr 2025, Ionawr 2025

# 2. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

## Confensiwn ar Iawndal Atodol am Ddifrod Niwclear

**8.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 30 Mehefin 2025. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010, oedd 10 Medi 2025.

**9.** Diben y cytundeb hwn yw sefydlu isafswm o iawndal cenedlaethol a fydd ar gael i ddioddefwyr digwyddiad niwclear. Yn ogystal, mae'n ceisio cynyddu ymhellach faint o iawndal sydd ar gael drwy sefydlu cronfa ryngwladol ar y cyd y gellir ei defnyddio i ddigolledu dioddefwyr unwaith y bydd yr iawndal cenedlaethol wedi dod i ben.

**10.** Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r cytundeb yn nodi bod drafft y Rheoliadau Gosodiadau Niwclear (Iawndal am Ddifrod Niwclear) (Diwygio) 2025[3], i'w gwneud o dan adran 306 o'r Deddf Ynni 2023, yn nodi newidiadau technegol pellach i'r ffordd y bydd y cytundeb yn cael ei weithredu'n ddomestig yn y Deyrnas Unedig.[4]

**11.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â Llywodraeth yr Alban ynghylch yr effaith debygol ar swyddogaethau Gweinidogion yr Alban.[5]

**12.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud ag ynni niwclear, sy'n fater a gedwir yn ôl fel y darperir ym mharagraff 99 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, cytunwyd i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

## Cytundeb ar reolaethau allforio amddiffyn

**13.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 1 Medi 2025. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010, yw 30 Hydref 2025.

**14.** Mae'r cytundeb yn caniatáu i'w bartïon contract ymgynghori ar gyfreithiau, rheoliadau ac egwyddorion gwleidyddol gwladol ynghylch rheoli

---

[3] Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukdsi/2025/9780348272079
[4] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Confensiwn ar Iawndal Atodol am Ddifrod Niwclear, paragraff 5
[5] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Confensiwn ar Iawndal Atodol am Ddifrod Niwclear, paragraff 10

trosglwyddiadau ac allforion er mwyn sicrhau llwyddiant economaidd a gwleidyddol eu cydweithrediad diwydiannol a rhynglywodraethol.

**15.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad yw Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig, gan ei bod o'r farn bod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl yn llwyr ac nad oes iddo unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r llywodraethau datganoledig.[6]

**16.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â diogelwch gwladol, sy'n fater a gedwir yn ôl fel y darperir ym mharagraff 32 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, cytunwyd i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

## Cytundeb Partneriaeth a Chydweithio Llongau Tanfor Pŵer Niwclear y DU ac Awstralia

**17.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 1 Medi 2025. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010, yw 30 Hydref 2025.

**18.** Diben y cytundeb yw galluogi a hwyluso cydweithio dwyochrog cynhwysfawr rhwng y DU ac Awstralia i helpu i gyflawni Colofn I AUKUS (partneriaeth amddiffyn a diogelwch tairochrog sy'n cynnwys Unol Daleithiau America).

**19.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad yw Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig, gan ei bod o'r farn bod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl yn llwyr ac nad oes iddo unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r llywodraethau datganoledig.[7]

**20.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â diogelwch ac ynni gwladol, sy'n fater a gedwir yn ôl fel y darperir ym mharagraff 11 a 99 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn y drefn honno, cytunwyd i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

[6] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Cytundeb ar reolaethau allforio amddiffyn, paragraff 10
[7] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU ac Awstralia: Cytundeb Partneriaeth a Chydweithio Llongau Tanfor Pŵer Niwclear, paragraff 10